# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 28 Ionawr 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09:00-09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus?

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 9)

Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Uzo Iwobi, Cynghorydd Polisi Arbenigol ar Gydraddoldeb

Emma Bennett, Pennaeth Cydraddoldeb

## 3 Papur(au) i'w nodi

**3.1 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth ar gyfer y cyfryngau newyddion**

(Tudalennau 10 - 16)

**3.2 Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar yr ymchwiliad i gerddoriaeth fyw**

(Tudalennau 17 - 20)

**3.3 Gohebiaeth ynghylch yr ymchwiliad i ddatganoli darlledu**

(Tudalennau 21 - 25)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5 Ôl-drafodaeth breifat

6 Ymchwiliad ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus: Trafod y dystiolaeth

(10:30-11:00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AS

Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

11 Rhagfyr 2020

Annwyl Dafydd,

**Cymorth ar gyfer y cyfyngau newyddion**

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 17 Medi 2020, pan glywyd eich bod, meddech chi, yn ceisio ystyried sefyllfa a fyddai'n galluogi Cymru Greadigol i fod yn gorff hyd braich a allai roi cymorth i gyhoeddiadau annibynnol.

Fel y gwyddoch, mae aelodau'r Pwyllgor wedi bod yn pryderu am y ffaith bod refeniw newyddiaduraeth newyddion yn gostwng a bod hynny'n arwain at oblygiadau posibl o ran creu etholwyr gwybodus, yn enwedig o safbwynt materion datganoledig a gostwng yr oedran pleidleisio. Gwahoddwyd academyddion a newyddiadurwyr i'n cyfarfod ar 12 Tachwedd i gyfrannu at y sgwrs am ddyfodol y cyfryngau newyddion, a'r ffordd orau o ddefnyddio'r gronfa arfaethedig.

Dyma pwy gymerodd ran:

- Emma Meese, Cyfarwyddwr Newyddiaduraeth Gymunedol ym Mhrifysgol Caerdydd, Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol (ICNN);
- Karin Wahl-Jorgensen, Athro yn Ysgol Newyddiaduraeth, Cyfryngau a Diwylliant Caerdydd, a Chyfarwyddwr Ymchwil y Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol;
- Nick Powell, Cadeirydd Cyngor Gweithredol Cymru o Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr (NUJ);
- Dr Rachel Howells, Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr a
- Dr Ifan Morgan Jones, Arweinydd Cwrs BA mewn Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Bangor

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Crynodeb o'r materion a godwyd yn ein cyfarfod yw hwn.  Roedd pawb a siaradodd yng nghyfarfod y Pwyllgor yn croesawu'ch cyhoeddiad y byddai cyllid cyhoeddus ar gael i gefnogi cyhoeddwyr newyddion annibynnol. Gobeithio y bydd modd defnyddio'r llythyr hwn wrth ichi ystyried maint a natur y gronfa.

Rwyf hefyd wedi cynnwys ceisiadau am wybodaeth ychwanegol am y gronfa arfaethedig. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ateb y cwestiynau hyn er mwyn llywio gwaith y Pwyllgor a chaniatáu inni ateb ymholiadau gan ein rhanddeiliaid.

**Yr angen i sicrhau y bydd unrhyw gronfa yn gweithredu hyd braich oddi wrth y Llywodraeth**

Roedd y rhai a gyfrannodd at ein trafodaeth yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gronfa'n cael ei sefydlu ar sail egwyddor hyd braich. Er enghraifft, dywedodd Mr Jones:

> 'dwi'n meddwl y byddai pawb yn cytuno – fod angen i'r arian fod yn hyd braich, achos, hyd yn oed os ydy'r newyddiadurwyr yn hollol annibynnol eu ffordd o feddwl, hollol ddiduedd, mi fydd yna bobl yn dal i'w cyhuddo nhw o ogwydd ac yn defnyddio hynny er mwyn tanseilio eu gwaith.'

Gwn eich bod chithau'n cytuno â'r egwyddor hon.

A fyddech chi cystal â darparu rhagor o fanylion ar ôl penderfynu sut y bydd y gronfa'n gweithredu ac yn cael ei llywodraethu?

**Gwariant y sector cyhoeddus ar hysbysiadau a hysbysebu**

Galwodd rhanddeiliaid am i'r hysbysiadau cyhoeddus gael eu hysbysebu'n ehangach. Dywedodd y cynhyrchwyr newyddion cymunedol annibynnol fod y refeniw hwn yn 'hanfodol'; byddai'n eu galluogi i gyrraedd cynulleidfa ehangach ac yn creu sefyllfa decach o  rhyngddyn nhw a theitlau print sefydledig o safbwynt gwariant y Llywodraeth. Clywodd y Pwyllgor mai teitlau digidol sy'n denu'r  cynulleidfaoedd mwyaf o ran niferoedd, cyrhaeddiad ac ymgysylltiad ac felly nid yw'n gwneud synnwyr i barhau i wario arian cyhoeddus ar bapurau newydd yn bennaf.

Awgrymodd Emma Meese y dylai'r Llywodraeth hwyluso cytundeb broceriaeth rhwng y Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol (ICNN) a Golley Slater, asiantaeth prynu cyfryngau'r Llywodraeth.

Cafwyd trafodaeth ar ymgyrch iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn ystod pandemig y coronafeirws. O ystyried bod aelodau ICNN yn cyrraedd traean o boblogaeth Cymru, holodd Emma Meese pam na chafodd cyhoeddwyr newyddion cymunedol annibynnol eu cynnwys yn yr ymgyrch iechyd cyhoeddus fel a ddigwyddodd yn achos gorsafoedd radio

cymunedol. Dywedodd fod y Caerphilly Observer, er enghraifft, wedi'i eithrio, er mai hwn yw'r unig gyhoeddiad ar gyfer bwrdeistref sirol Caerffili gyfan, sef yr ardal gyntaf yng Nghymru i wynebu'r ail gyfnod o gyfyngiadau symud.

Roedd galw hefyd i ehangu nifer y cynhyrchwyr newyddion cymunedol annibynnol sy'n dod i sesiynau briffio'r Llywodraeth.

A allwch roi gwybod i'r Pwyllgor a fydd y Llywodraeth yn newid y modd y mae'n gwario ar hysbysiadau statudol ac ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus a gwario mwy ar gyhoeddiadau a chyhoeddwyr newyddion, yn hytrach na phapurau newydd yn unig?

**Natur y gronfa arfaethedig i gynorthwyo cyhoeddiadau annibynnol**

Awgrymodd Ifan Morgan Jones na ddylid rhoi cymorth ariannol i wasanaethau newyddion newydd gan fod digon ohonynt, a byddant yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i ddarparu'r un wybodaeth i'r un darllenwyr. Dylid targedu'r arian, yn hytrach, i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth newyddiadurol, fel y prinder arian ar gyfer newyddiaduriaeth ymchwiliol. Dywedodd y dylid defnyddio'r arian:

> 'i newyddiadurwyr ganolbwyntio ar newyddion lleol, llysoedd mewn ardaloedd penodol, cynghorau lleol, y Senedd, Llywodraeth Cymru ac yn y blaen, ond bod ganddyn nhw wedyn yr amser a'r rhyddid i fynd ar ôl straeon, yn hytrach na bod cyn lleied ohonyn nhw mai'r hyn maen nhw'n ei gynhyrchu mewn gwirionedd ydy seilio ar ddatganiadau i'r wasg.'

Roedd Rachel Howells o blaid defnyddio'r cyllid ar gyfer newyddion cymunedol annibynnol. Dywedodd:

> 'community journalism outlets are frequently started up in areas that have been abandoned by other news organisations due to the collapse of the local news industry. What that means is that they're only sources of news and the only way of holding local authorities to account.'

O ran gweinyddu'r cyllid, awgrymodd mai man cychwyn da fyddai adeiladu ar y gronfa newyddiaduraeth hyperleol bresennol.

Dylid defnyddio arian cyhoeddus i sefydlu canolfannau newyddion ar hyd a lled Cymru, meddai, fel yr awgrymodd eisoes yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor i newyddiaduraeth newyddion yn 2018.

Awgrymodd hefyd y gallai Llywodraeth Cymru ystyried dilyn model Missouri, a chael coleg neu academi i weithredu fel 'ysbyty addysgu ar gyfer newyddiadurwyr; lle bydd

dysgwyr yn cynhyrchu papur newydd. Efallai y byddai'n werth ystyried y model hwn fel rhan o'r cwricwlwm yn un o gyrsiau hyfforddi newyddiaduraeth presennol Cymru.

Tynnodd sylw hefyd at symlrwydd y cymhorthdal ar gyfer y cyfryngau yn Norwy. Cyn belled â bod gan gyhoeddiad nifer benodol o danysgrifwyr, bydd hanner cyflog ar gael ar gyfer un aelod o staff, a chaiff hyn ei weinyddu gan un person am chwe mis y flwyddyn.

Cynigiodd Emma Meese y meini prawf cymhwysedd hyn ar gyfer yr arian:

> 'Grant funding should be made available to relevant start-up media enterprises in areas where the withdrawal of established journalism from Welsh communities has been most acutely felt, with sufficient and ongoing support, and to established organisations that have a proven track record of reaching audiences and producing contemporaneous public interest news.'

Awgrymodd Ifan Morgan Jones hefyd y dylai penderfyniadau cyllido gael eu seilio ar arbenigedd ym maes newyddiaduraeth ac y dylid mesur llwyddiant y grantiau drwy fesur pa mor llwyddiannus yw newyddiadurwyr yn eu hymdrechion i greu cynnwys newydd a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. I wneud hyn, awgrymodd bod angen 'corff arbenigol o newyddiadurwyr a golygyddion, neu sicrhau bod yr arbenigedd yna ar gyrff sydd yn bodoli eisoes.'

Dadleuodd Nick Powell y dylid trin papurau newydd fel asedau cymunedol. Cynigiodd y dylid defnyddio cyllid i gynorthwyo cymunedau i gyhoeddi papurau newydd lleol os oes perygl y bydd un yn cau.

A fydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar yr arbenigedd presennol yng Nghymru Greadigol wrth benderfynu ynghylch cyllid a dangosyddion perfformiad allweddol? Neu a fyddwch chi'n ceisio arbenigedd ychwanegol y cyfryngau digidol a phrint wrth wneud penderfyniadau cyllido?

A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cyllid?

**Maint a ffynhonnell y cyllid**

Dywedodd Emma Meese fod y gronfa bresennol ar gyfer newyddiaduraeth hyperleol wedi cael effaith anhygoel. Galwodd am i'r gronfa barhau, gan ddweud:

> '[it] would be hugely beneficial, but would need to include capital expenditure if it was to be as successful as possible.'

Esboniodd y byddai teitlau bach, annibynnol yn elwa o gael cyllid i greu'r sefydlogrwydd o gyflogi person arall, a hynny efallai ar ffurf prentisiaeth neu interniaeth.

O ran codi arian i gynorthwyo'r cyfryngau newyddion, anogodd Nick Powell y Llywodraeth i ychwanegu ei llais at y rhai sy'n galw ar gewri'r byd technoleg i 'dalu eu ffordd'. Soniodd am gynllun adfer newyddion yr NUJ sy'n galw am dreth ffawdelw o 6 y cant ar gewri'r byd technoleg, ac yna ardoll cysylltiedig â'u helw i ariannu newyddiaduraeth er budd y cyhoedd.

A allwch chi gadarnhau faint o arian fydd ar gael i gynorthwyo'r cyfryngau newyddion drwy Gymru Greadigol?

**Talebau i bobl ifanc**

Cymeradwyodd Nick Powell a Rachel Howells gynnig gan yr NUJ i gyflwyno cynllun talebau ar gyfer pobl ifanc. Byddai'r talebau'n cael eu defnyddio i dalu i danysgrifio i gyhoeddiad neu wefan newyddion neu faterion cyfoes O gofio bod yr oedran pleidleisio wedi gostwng, mae'n hanfodol bod pobl ifanc 16 a 17 oed yn wybodus am sefydliadau democrataidd ac am y rhai sydd mewn grym, a dylid eu hannog i droi at ffynonellau dibynadwy i gael eu newyddion.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried yr awgrymiadau a'r sylwadau hyn ynghylch y cyllid arfaethedig wrth i chi fwrw ymlaen â'r prosiect. Gwn eich bod chithau, fel y Pwyllgor, yn pryderu am y ffaith bod y sector yn crebachu ac am y peryglon posibl a all godi pan fydd pobl gael camwybodaeth gan y cyfryngau digidol, na chânt eu rheoleiddio.

Rwy'n credu bod Karin Wahl-Jorgensen wedi crynhoi'r sefyllfa'n gywir pan ddywedodd: 'supporting the sustainability of these news organisations, but also encouraging future growth in the sector, is essential both to democratic life and the economy of Wales'.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'ch gwaith yn y cyswllt hwn. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ateb y cwestiynau yn y llythyr hwn erbyn 21 Rhagfyr 2020.

Yn gywir,

Helen Mary Jones.

**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

20 Ionawr 2021

Annwyl Helen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2020 am gymorth i'r cyfryngau newyddion.

Yn ystod y sesiwn graffu ar 17 Medi nodais fy mhenderfyniad i roi'r dasg i Cymru Greadigol ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru roi cymorth ychwanegol i gyhoeddi annibynnol, i gryfhau ac arallgyfeirio'r ddarpariaeth newyddion yng Nghymru. Mae Cymru Greadigol wedi bod yn ystyried opsiynau mewn perthynas â'r cais hwn a chafwyd sawl trafodaeth â rhanddeiliaid yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae'r trafodaethau hyn wedi codi materion ynghylch y seilwaith cyfryngau cynhenid gymharol wan yng Nghymru, diffyg lluosogrwydd newyddion ac enghreifftiau o ohebu camarweiniol. Mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cael gweithgarwch cyfryngol sy'n annibynnol ar y Llywodraeth ac wedi pwysleisio y byddai angen i unrhyw ddatrysiad fod yn un hyd braich, meddu ar strwythur llywodraethu priodol a diogelu annibyniaeth olygyddol.

Trafodwyd opsiynau ar gyfer ymyrraeth yng nghyfarfod Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol ym mis Rhagfyr. Nododd y Bwrdd yr heriau sylweddol sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â materion yn sector y cyfryngau a chynghorwyd y dylid bod yn ofalus o ran unrhyw ymyrraeth sydd â'r potensial i ystumio marchnad y cyfryngau a chreu anghydbwysedd ynddi. Argymhellodd y Bwrdd y dylid cynnal trafodaethau pellach ar yr opsiynau gydag arbenigwyr yn y diwydiant.

Ar 11 Ionawr, aeth Gerwyn Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol i Uwchgynhadledd Cyfryngau Caerdydd 2021 Sefydliad Materion Cymreig fel panelwr. Y digwyddiad oedd y cyntaf mewn cyfres o bedwar yn canolbwyntio ar y tirlun newydd i'r cyfryngau yng Nghymru, i ystyried y prif ganfyddiadau o archwiliad cyfryngau 2020 y Sefydliad Materion Cymreig. Bydd Cymru Greadigol yn parhau i ymgysylltu â'r Sefydliad Materion Cymreig wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo i sicrhau bod y canfyddiadau a'r dystiolaeth ddiweddaraf yn cael eu cynnwys mewn unrhyw weithgarwch yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar unrhyw ffordd o weithio i gefnogi'r cyfryngau. Mae gan Cymru Greadigol gyllideb bwrpasol i gyflwyno rhaglenni a phrosiectau i gefnogi is-sectorau a gweithgarwch â blaenoriaeth. Mae cyllideb 2021/22, a fydd yn dechrau o fis Ebrill 2021, yn cael ei thrafod ar hyn o bryd i gytuno ar y defnydd gorau o ddyraniad ariannol Cymru Greadigol. Bydd cost cyfle yn gysylltiedig â dyrannu cyllid i gefnogi'r cyfryngau y bydd angen ei ystyried yn ofalus. Diben unrhyw ymyrraeth fyddai mynd i'r afael â'r canfyddiad bod diffyg newyddion perthnasol ac o safon er budd y cyhoedd yng Nghymru. Efallai nad cyflwyno cynllun grant fydd yr ateb mwyaf ymarferol i'r methiant hwn. Wrth archwilio opsiynau, bydd yn bwysig ystyried cyfleoedd i sicrhau bod ffrydiau ariannu presennol o fewn cyrraedd i sefydliadau'r cyfryngau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael o ffynonellau niwtral o ran y sector. Bydd cyfleoedd hefyd yn gysylltiedig â ffynonellau ariannu allanol a gweithgarwch sy'n cefnogi cynaliadwyedd tymor hwy seilwaith y cyfryngau yng Nghymru megis datblygu sgiliau a chyllido prentisiaethau.

O ran eich cwestiwn am unrhyw newid yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn mynd ati i wario ar hysbysiadau statudol ac ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus, rydym yn croesawu diddordeb a chraffu parhaus y pwyllgor yn y maes hwn. Drwy gydol y pandemig, rydym wedi defnyddio'r holl sianeli sydd ar gael, gan gynnwys y gymuned a'r hyperleol, i sicrhau bod negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol yn cyrraedd pobl sydd eu hangen i gadw eu hunain a Chymru'n ddiogel. Mae cyhoeddiadau cymunedol a hyperleol wedi cymryd rhan yng nghynadleddau i'r wasg Llywodraeth Cymru a ddarlledir ar y teledu yn genedlaethol. Mae hynny'n golygu y gellir codi materion lleol allweddol yn uniongyrchol gyda Gweinidogion, a chodi ymwybyddiaeth pobl ohonynt ymhellach. Mae ein gwaith ar gyfer ymgyrch iechyd y cyhoedd hefyd wedi defnyddio ystod eang o sianeli ac allfeydd. Mae'r dadansoddiad o wariant gyda radio a'r wasg gymunedol rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2021 ar gyfer ymgyrch Diogelu Cymru yn dangos cyfanswm gwariant o tua £160k, gan gynnwys mwy na £3,200 gyda Golwg a mwy na £6,400 gyda Bro Radio. Mae prynwr cyfryngau Llywodraeth Cymru, Golley Slater, wedi cydweithio â Chyngor Llyfrau Cymru i gefnogi mentrau o'r fath a sicrhau bod ymgyrchoedd ac incwm Llywodraeth Cymru ar gael i'r cyhoeddwyr hyn.

Mae'n ofynnol i Hysbysiadau Statudol gael eu rhoi yn y papur newydd sydd â'r cylchrediad uchaf yn yr ardaloedd daearyddol dan sylw, sy'n golygu ei bod yn llai syml amrywio'r ffordd o weithio yn y maes hwn. Rydym yn deall pwysigrwydd incwm hysbysebu y mae'r wasg ranbarthol yn ei gael o hysbysiadau statudol. Dyna pam mae hysbysiadau Llywodraeth Cymru yn cael eu harchebu gyda chynrychiolwyr cyfryngau lleol cyn belled ag y bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol i gynnal swyddi'n lleol. Er enghraifft, pan fydd Golley Slater yn archebu hysbyseb ar gyfer y Cambrian News maen nhw'n siarad â'u tîm yn Aberystwyth. Drwy wneud hynny maent yn helpu i gynnal y rolau hynny yn y cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu, yn hytrach nag archebu drwy eu cynrychiolwyr yn y cyfryngau yn Llundain neu Fanceinion (o'r enw Mediaforce). Mae hyn yn wir am y rhan fwyaf o hysbysiadau a osodir yn y wasg Gymreig.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Trowch y sain i fyny: ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw

**Y Senedd: Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

## Ymateb gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd cerddoriaeth fyw i Gymru. Rydym ni am i bobl Cymru allu creu a phrofi cerddoriaeth fyw a chymryd rhan ynddi ar eu telerau eu hunain. Ond yn ôl *Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys, Ni Chawn ein Dileu*, cymunedau difreintiedig mae anghydraddoldeb wedi gwaethygu yn ystod y pandemig.

Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar un maes pwysig o'r diwydiant cerddoriaeth. Ond mae sawl math ar gerddoriaeth fyw ac mae’n digwydd mewn sawl man. Rhaid inni gydnabod bod rhai lleisiau a gweithgarwch ar goll o’r adroddiad.

Fel sefydliad rydym ni’n meddwl am sut y gallwn fynd i'r afael â hyn. Ein nod yw sicrhau bod tegwch ac amrywiaeth yn ganolog i'n gwaith a’n harian. Yn ogystal â chynnal yr asedau sydd yn y maes ac adeiladu arnynt, rhaid inni ystyried yr hyn nad yw'n cael ei ariannu. Rhaid diwallu’r anghenion yn well i wneud yn siŵr bod cerddoriaeth fyw’n cael ei chefnogi’n gynhwysol.

Mae Cymru Greadigol newydd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ac mae’r tîm yr un mor awyddus i roi amrywiaeth wrth wraidd y gwaith gan bwysleisio cerddoriaeth sy’n cael llai o arian a chefnogaeth. Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos gyda’r tîm wrth i ni’n dau fuddsoddi yn y maes.

Bydd gennym swyddogaethau gwahanol. Rhaid bod yn glir am y gwaith y gallwn ei wneud orau a sut y gallwn gydweithio. Er enghraifft, mae Cymru Greadigol yn arwain ar gymorth busnes i leoliadau cerddorol, ond gall lleoliadau hefyd ymgeisio i’r Cyngor am brosiectau o fudd diwylliannol a cyhoeddus clir. Rhaid gwneud hyn gyda’r diffiniad ehangaf o'r diwydiant a’r cerddorion gan weithio gyda nhw yn hytrach nac arwain eu gwaith. Byddwn ni’n gweithio i gyfuno’r gwaith a llunio cynllun gweithredu i nodi’r cyfleoedd yn glir.

Dyma ein hymatebion i argymhellion yr adroddiad sy’n berthnasol i ni.

**Argymhelliad 4**
Dylai arianwyr cyhoeddus deilwra'r cymorth y maent yn ei roi i'r diwydiant i annog pobl i ddarparu rhywfaint o gerddoriaeth Gymraeg mewn gigs sy’n digwydd yn Saesneg yn bennaf. Dylai Cymru Greadigol ddod â chymunedau sy’n wahanol o ran iaith a math ar gerddoriaeth at ei gilydd i gydweithio.

Rydym ni’n awyddus i ddatblygu gwaith yn y Gymraeg. Rydym ni am fuddsoddi mewn prosiectau sy'n datblygu gallu a sgiliau artistiaid, cerddorion a gweithwyr sydd am weithio yn Gymraeg. Mae'r uchelgais yn sail i’n strategaeth, ein hariannu a’n meini prawf asesu grantiau.

Disgwyliwn i bobl allu ymgysylltu â'r celfyddydau yn eu dewis iaith, boed yn aelodau o gynulleidfa, cyfranogwyr neu artistiaid. Mae hyn yn digwydd mewn prosiectau a ariennir megis Forté, Gorwelion a Focus Cymru. Mae'r rhain yn gweithio gydag artistiaid sy'n creu cerddoriaeth yn y ddwy iaith.

Mae ein cynllun, Noson Allan, yn cefnogi grwpiau cymunedol i hyrwyddo sioeau yn eu lleoliadau sy’n cynnwys cerddoriaeth Gymraeg. Cyn y pandemig roeddem ni’n gweithio gyda PYST a Dydd Miwsig Cymru i annog cymryd rhan gan hyrwyddwyr ifanc ym maes cerddoriaeth Gymraeg. Gobeithio gwneud hyn eto pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.

Mae Pwyllgor Cymraeg y Cyngor yn craffu ar ystod, effaith ac effeithiolrwydd ein gweithgarwch Cymraeg. Mae'n ystyried ein gwaith presennol, pennu blaenoriaethau at y dyfodol ac archwilio’r data ariannu a’i gyflwyno yn ein Hadroddiad Blynyddol am y Gymraeg.

Rydym ni hefyd yn cydnabod bod bron i 80% o siaradwyr Cymraeg yn byw mewn cymunedau sydd dan anfantais economaidd. I gefnogi hygyrchedd, rhaid cydnabod bod llawer yn profi rhwystrau oherwydd tlodi i gyrraedd cerddoriaeth a’r celfyddydau.

**Argymhelliad 10**

Mae llawer o adeiladau y tu allan i ardaloedd trefol – gan gynnwys canolfannau celfyddydol – yn cael arian cyhoeddus, naill ai gan awdurdodau lleol neu asiantaethau fel Cyngor y Celfyddydau. Dylai arianwyr ystyried gosod amodau ar eu grantiau i agor y lleoedd yma i gerddorion ymarfer ynddynt, lle y bo'n bosibl.

Mae'r lleoliadau a ariannwn gan refeniw fel rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru yn fwy nac adeiladau. Mae'r timau sy'n eu rhedeg yn gweithio'n agos gyda'u cymuned i’w gwasanaethu. Mae hyn yn wir hyd yn oed yn ystod y pandemig.

Rhaid iddynt hefyd gynhyrchu incwm o'u hadnoddau, gan gynnwys o logi ystafelloedd yn fasnachol. Rhaid cadw’r ddysgl yn wastad. Pan fydd galw gan y gymuned am wasanaeth ac nad oes unrhyw gyfleusterau addas eraill, byddem ni’n annog y lleoliad i ddod o hyd i ffyrdd o ddiwallu'r angen. Ond rhaid ystyried anghenion grwpiau eraill hefyd yn y gymuned a’r hyn sy'n ymarferol ac yn ariannol bosibl. Weithiau mae costau sylweddol ynghlwm wrth agor drysau a chynnig lle.

Wrth inni gefnogi a monitro lleoliadau yn y Portffolio, gwnawn yn sicr eu bod yn gwneud gwaith blaengar a bod yn ganolbwynt creadigol i'w cymuned a gallai cynnig lle i ymarfer fod yn rhan o hynny.

**Argymhelliad 11**
Dylai fod cymorth a mentora i bobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth fyw ar gael – fel yr oedd ar gael drwy brosiect Forté a Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc yn y De – ond i Gymru gyfan. Dylai gynnwys swyddi megis rheolwyr, hyrwyddwyr ac asiantau. Dylai'r Cyngor ystyried yn gryf ariannu sefydliad cenedlaethol felly yn ystod ei adolygiad buddsoddi.

Rydym ni wedi cefnogi prosiect Forté (a'i raglen, Sonig, sy'n cynnwys Rhwydwaith yr Hyrwyddwyr Ifanc). Rydym ni'n sianeli ein cefnogaeth drwy Gyngor Rhondda Cynon Taf ers sefydlu'r prosiect.

Roeddem ni wedi rhoi costau Ymchwilio a Datblygu i ystyried model Cymru gyfan (Beacons) ac mae Cymru Greadigol wedi'i gefnogi hefyd. Rydym ni wedi'n harwain gan Forté a chanolbwyntio ar ddatblygiad a lles yr artist a'r effaith y cafodd hyn ar yr artistiaid ifanc ac ar eu tîm.

Yn yr hydref byddwn ni'n dechrau ein Hadolygiad Buddsoddi, ein hymarfer pum mlynedd i wahodd ceisiadau gan sefydliadau sy'n dymuno fod yn aelod o'r Portffolio a chael arian refeniw. Nid yw'n briodol inni ragweld diwedd y broses, ond bydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chyrhaeddiad yn ganolog i'r canlyniad.

Ond yn y Portffolio presennol mae:

- Cerdd Gymunedol Cymru
- Celfyddydau Ieuenctid Cymru
- Canolfan Gerdd William Mathias
- Tŷ Cerdd
- Cerdd Fyw Nawr
- trac

ac mae pob un yn datblygu cyfleoedd cerddorol i bobl ifanc.

**Argymhelliad 12**
Dylid ehangu'r rhaglen Gorwelion fel bod artistiaid yn cael rhagor o gyngor a chymorth i ddatblygu gyrfa i'w cymryd at y lefel nesaf.

Sefydlodd y Cyngor Orwelion gyda BBC Cymru. Rydym ni o hyd yn ariannu'r prosiect yn flynyddol. Eleni yn arbennig roedd y cynllun wedi cefnogi'r nifer mwyaf o artistiaid duon a lleiafrifoedd ethnig ac enghreifftiau o gerddoriaeth MOBO. Rydym ni wedi ymdrechu i gynnal lefel ein harian pan na allai ein partner gynnal ei ochr ef. Eleni, roeddem ni wedi cynyddu'r arian i Orwelion a'u menter Lawnsio sy'n cynnwys grantiau i gefnogi talent gerddorol sy'n dod i'r amlwg i gael hyfforddiant.

Rydym ni wrth ein bodd bod Cymru Greadigol hefyd yn cefnogi Gorwelion eleni. Byddwn ni'n parhau i drafod cymorth yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gysylltiadau â'r diwydiant.

Tan eleni rydym ni hefyd wedi bod yn bartneriaid i Lywodraeth Cymru i gefnogi Momentwm Sylfaen PRS i artistiaid sydd ar fin croesi trothwy yn eu gyrfa. Cymru Greadigol sydd wedi arwain ar hyn ond byddwn ni'n archwilio llwybrau eraill i barhau i gynnal ein gwaith gyda'r ddau bartner. Byddwn ni'n adlewyrchu ein blaenoriaethau o ran cydraddoldeb a chyrraedd yn yr arian a roddwn.

O ran yr argymhellion eraill, megis porth gwe i gerddoriaeth, hoffem ni dynnu sylw at AM. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru mae'n datblygu llwyfan ar gyfer y celfyddydau digidol ac ar-lein, gan gynnwys cerddoriaeth, i dyfu cynulleidfa gartref sydd ar gynnydd. Yn hytrach na chreu llwyfan newydd, dylem gefnogi cerddorion i ddefnyddio'n well y llwyfannau y mae'r gynulleidfa yn ei hoffi'n barod.

Wrth gwrs, fel y mae ar hyn o bryd, nid yw'r fargen fasnachol rhwng Prydain ac Ewrop yn caniatáu symudedd rhwydd i artistiaid. Felly bydd teithio yn Ewrop yn ddrutach a mwy cymhleth. Bydd hyn wedyn yn effeithio ar yr amrywiaeth o gerddorion a all berfformio yng Nghymru. Mae ein cydweithwyr yng Nghelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn gweithio'n agos gyda Chynghorau Celfyddydol eraill ym Mhrydain a chyrff yn y maes i bwyso am newid a chynnig gwybodaeth ymarferol. Rhan bwysig o'r gwaith yw sefydlu Pwynt Gwybodaeth i gynghori am deithebau.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
**Ionawr 2021**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Eitem 3.3

Dafydd Elis-Thomas AS
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

11 Rhagfyr 2021

Annwyl Dafydd,

**Ymchwiliad i ddatganoli darlledu**

Mae'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn edrych ar a ddylid datganoli rheoleiddio darlledu i Gymru.

Ers i'r Comisiwn Silk 2014 ar Ddatganoli yng Nghymru gyhoeddi ei adroddiad ynghylch pwerau deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oedd yn cynnwys pennod ar ddarlledu, bu nifer o newidiadau allweddol i'r gwaith o reoleiddio darlledu fel y mae'n berthnasol i Gymru. O gofio bod y dirwedd ddarlledu yn newid yn gyflym, wrth i arferion gwylio a gwrando addasu i'r argaeledd helaeth o gynnwys cyfryngau digidol, roedd y Pwyllgor yn teimlo'i bod yn briodol casglu tystiolaeth newydd.

Fel rhan o'n hymchwiliad, roeddwn yn gobeithio eich gwahodd i drafod y cwestiynau a ganlyn gyda'r Aelodau mewn cyfarfod o'r Pwyllgor. Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni newid ein rhaglen waith yn sylweddol i wneud lle ar gyfer gwaith ar effaith y pandemig ar sefydliadau sydd yn ein cylch gwaith. Nid oes gennym amser bellach yn ystod y Senedd hon i wneud y gwaith hwn yn y ffordd yr oeddem wedi'i chynllunio.

Rydym wedi bod yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid i weld os ydynt yn credu y dylai Cymru gael mwy o bwerau yn y maes hwn a sut y gellid cyflawni hynny.

Hoffwn gynnwys safbwynt Llywodraeth Cymru yn ein hadroddiad, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb i roi gwybod i'r Pwyllgor:

Pa agweddau, os o gwbl, ar ddarlledu yng Nghymru ddylai gael eu datganoli, a sut fyddai hyn o fudd i Gymru a chynulleidfaoedd yng Nghymru. Mae'r meysydd y gallech fod am roi sylw iddynt efallai'n cynnwys:

- Y BBC, gan gynnwys ei lywodraethu a'i ariannu.
- S4C, gan gynnwys ei llywodraethu a'i hariannu.
- Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill (ITV, Channel 4 a Channel 5).
- Swyddogaethau rheoleiddio a gyflawnir gan Ofcom ar hyn o bryd.


**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

- Gwasanaethau radio masnachol a radio cymunedol.
- Sut mae unrhyw newidiadau a gynigir yn cyd-fynd â'r newid i ddefnyddio cyfryngau digidol.
- Sut y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y sector cynhyrchu o ran y cyfryngau.

Yn ogystal, byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi sut y dylid gwella darpariaeth y cyfryngau ar gyfer Cymru yn eich barn chi. Er mwyn bwrw ymlaen â’n hadroddiad, a fyddech cystal ag ymateb erbyn 15 Ionawr 2021.

Yn gywir,



Helen Mary Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

22 Ionawr 2021

Annwyl Helen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2020 ynglŷn â'ch ymholiad ynghylch datganoli darlledu.

*Datganoli darlledu*

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn na ddylid datganoli darlledu nac unrhyw agweddau ar ddarlledu. Rydym yn cydnabod y newid sylfaenol yn y tirlun darlledu a pha mor gyflym mae arferion gwylwyr a'r cynnwys maent yn ei wylio'n newid. Wrth i'r amgylchedd darlledu ac arloesi ym maes technoleg ddigidol barhau i ddatblygu'n gyflym, nid ydym yn credu y byddai'r system yn cael ei hatgyfnerthu ar hyn o bryd drwy rannu'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddarlledu. Mae'r dull gweithredu yn y DU yn galluogi ystyried ar y cyd yr heriau sylweddol sy'n wynebu darlledwyr. Mae'n ategu cydgysylltu a chryfder o ran y ffordd mae atebion i faterion byd-eang yn cael eu nodi, a chysondeb rhwng y rhai sy'n gweithredu ar draws y pedair gwlad. Mae cadw'r cyfrifoldeb ar lefel y DU hefyd yn rhoi rhagor o sefydlogrwydd ariannol, gan nad oes unrhyw sicrwydd y byddai cyllidebau'n cael eu trosglwyddo ochr yn ochr â chyfrifoldebau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darlledu i Gymru. Mae'r rôl hollbwysig y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae wrth hysbysu, diddanu, addysgu a chreu dinasyddiaeth ddiwylliannol gyffredin wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod pandemig COVID-19. Mae darlledwyr hefyd yn gwneud cyfraniad hanfodol at dwf ein diwydiannau creadigol ac economi Cymru, gan gynnal y gwaith o ddatblygu ein cynnwys yng Nghymru gan ein cwmnïau cynhyrchu annibynnol. Yn ogystal, mae darlledu effeithiol yn hanfodol i ddatganoli a chynnal a chynyddu'r Gymraeg.

Rydym yn glir, felly, er y dylai Llywodraeth y DU barhau i fod yn gyfrifol am y gwaith cyffredinol o reoleiddio darlledu, nid yw hyn yn golygu na ddylai fod rhagor o atebolrwydd i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gymru. Rhaid i lais Cymru fod yn gryf ac yn gymhellol mewn unrhyw ddadl ar faterion darlledu fel y gallwn ddiogelu, cynnal a hyrwyddo buddiannau diwylliannol, ieithyddol, cymdeithasol, economaidd a democrataidd Cymru ymhellach.

Gwelwyd datblygiadau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Siarter bresennol y BBC, o ganlyniad i gynnwys Llywodraeth Cymru ym mhroses y Siarter, yn rhoi diben cyhoeddus llawer cryfach i'r BBC adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol Cymru, ac mae'n gwneud y BBC yn fwy atebol i'r Senedd. O ganlyniad, mae gan Lywodraeth Cymru rôl uniongyrchol yn y broses o benodi Cyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer Cymru i Fwrdd unedol y BBC. Mae penodi aelod dros Gymru i Fwrdd Ofcom yn 2019 gan Lywodraeth Cymru yn rhoi llais i Gymru ar brif Fwrdd Ofcom am y tro cyntaf, ac yn gwella gallu'r Bwrdd i gynrychioli lleisiau pobl yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gael ei chynrychioli ar banel dethol aelodau Bwrdd Unedol S4C. O ystyried arwyddocâd darlledu i'n hamgylchiadau ar ôl datganoli, rhaid inni gynnal y momentwm ac adeiladu ar y datblygiadau hyn.

Mae’n amlwg bod strwythurau darlledu'n mynd drwy esblygiad sylfaenol. Mae dogfen ymgynghori Ofcom Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr*,* a gafodd ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr, yn tynnu sylw at lawer o'r heriau sy'n wynebu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd ag opsiynau ar gyfer moderneiddio’r fframwaith presennol. Rhaid inni sefydlu strwythurau sy'n rhoi llais digonol i Gymru yn y datblygiadau hyn, fel y gallwn chwarae rhan ragweithiol yn y ddadl hon a sicrhau bod unrhyw newidiadau a gynigir i'r trefniadau rheoleiddio presennol yn diogelu ac yn gwasanaethu buddiannau gorau pobl Cymru.

Wrth i'r Llywodraeth ymateb i ddatblygiadau allweddol sydd ar y gweill, byddwn yn ceisio dylanwadu ar drefniadau llywodraethu a hyrwyddo buddiannau Cymru. Mae hyn yn cynnwys ein hymateb i'r ymgynghoriad Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr eleni ac ystyried amgylchiadau Cymru fel rhan o unrhyw newidiadau arfaethedig cysylltiedig i ddeddfwriaeth a threfniadau rheoleiddio. Bydd Arolygiad canol-Siarter y BBC yn 2023, diwedd y cyfnod trwyddedu presennol ar gyfer Sianelau 3, 4 a 5 yn 2024 a datblygiadau sy'n ymwneud ag ariannu darlledwyr fel trafodaethau am fodelau busnes newydd ac am ddyfodol ffi'r drwydded deledu hefyd yn hynod bwysig i’r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer Cymru. Gyda darlledwyr yn wynebu toriadau sylweddol i gyllidebau a refeniw, mae perygl y bydd ystyriaethau economaidd yn cael blaenoriaeth dros gynnwys ac ystyriaethau polisi, gan beryglu gallu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall, cynrychioli a mynd i'r afael â buddiannau Cymru.

Mae sefydlu Cymru Greadigol yn 2020 wedi creu cyfle i adeiladu ar ein perthynas ar draws y pedair gwlad ac â’n rhanddeiliaid wrth ymdrin â materion darlledu, gyda pholisïau ar gyfer y cyfryngau a swyddogaethau datblygu'r sector sgrin wedi'u hymgorffori yn ei strwythur. Un o rolau allweddol Cymru Greadigol yw datblygu deialog gadarnhaol ac adeiladol gyda swyddogion yn Llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig ynghylch materion allweddol sy'n ymwneud â darlledu, er mwyn sicrhau bod yn DU yn fwy atebol i Gymru wrth iddynt wneud penderfyniadau polisi. Bydd hyn yn cefnogi dull cydlynol ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion Cymru ar lefel y DU. Mae Cymru Greadigol hefyd yn adeiladu ar y berthynas dda sydd gan Lywodraeth Cymru â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, ac mae'n archwilio opsiynau ar gyfer datblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth i helpu i sicrhau bod gweithgareddau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn arwain at y manteision economaidd, diwylliannol, ieithyddol, cymdeithasol a democrataidd mwyaf posibl i Gymru.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag Ofcom i ystyried yn fwy uniongyrchol ofynion ac anghenion pobl Cymru. Cyn bo hir byddwn yn ysgrifennu at y Senedd ynghylch cyfleoedd i gryfhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofcom fel rhan o'r adolygiad arfaethedig o'r ddogfen.


*Darpariaeth yn y cyfryngau ar gyfer Cymru*

Mae darlledwyr yng Nghymru yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu newyddion. O ystyried seilwaith cynhenid cymharol wan Cymru ar gyfer newyddion drwy gyfryngau print, ynghyd â diffyg sylw sylweddol yng nghyfryngau'r DU, mae gorddibyniaeth ar wasanaethau newyddion teledu yng Nghymru o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae'r adroddiad *Cyfryngau'r Genedl: Cymru*, yn dangos mai'r sianelu teledu BBC One ac ITV Wales yw'r ffynonellau mwyaf poblogaidd i bobl Cymru.

Fel y nodwyd yn fy ymateb diweddar i'ch llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr ynghylch cefnogi'r cyfryngau newyddion, mae adborth rhanddeiliaid o drafodaethau â Chymru Greadigol ar y mater hwn wedi tynnu sylw at broblemau sy'n ymwneud â diffyg ffynonellau newyddion ac enghreifftiau o gamgynrychioli amgylchiadau Cymru.

Mae'n hanfodol bod Cymru yn cael ei chyfran deg o sylw yn y newyddion gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a bod ein hiaith, ein diwylliant, ein hunaniaeth a'n gwleidyddiaeth unigryw'n cael digon o amlygrwydd. Dylid cymryd camau i ddiogelu gwasanaethau newyddion presennol, cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer newyddion am Gymru lle bo modd, a sicrhau bod cyd-destun Cymru yn cael ei gynrychioli'n gywir mewn adroddiadau newyddion ledled y DU.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism